

CYFARFOD	FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
DYDDIAD	30 Mehefin 2015
TEITL	Gweithgor Cyllid Addysg
PWRPAS	Parhau gyda'r gwaith o adnabod a gweithredu arbedion
ARGYMHELLIAD	Cytuno ar aelodaeth ac amserlen gweithredu
AWDUR	Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
AELOD CABINET DROS ADDYSG	Y Cyngorydd Gareth Thomas

1 Arbedion £4.3m

1.1 Yn unol â phenderfyniad y Cabinet 19 Chwefror 2015 (isod) , gofynnir i'r Fforwm Cyllido Ysgolion gadarnhau y dylai'r Gweithgor Cyllid Ysgolion gyfarfod yn fuan er mwyn cynnal trafodaeth.

6.2 Derbyn cynigion y Fforwm Cyllido Addysg ar gyfer cyflawni £952,000 o arbedion o'r gyllideb ysgolion yn 2015/16 a chadw o fewn yr addewid cyllido ysgolion, gan ddefnyddio "Model B" ar gyfer cwtogi £60,131 o ddyraniad staff dysgu'r sector gynradd, a chwtogi £25,771 o ddyraniad staff dysgu'r sector uwchradd.

6.3 Gofyn i'r Fforwm Cyllido Ysgolion barhau i adolygu gwasanaethau a threfniadaeth addysg er mwyn canfod gweddill y targed arbedion uwchben y £952,000 ar gyfer 2015/16, gan ddisgwyl eu hargymhelliad ynglŷn â sut y gellir gwireddu'r £4.3m cyfan dros y cyfnod 2015/16 - 2018/19.

6.4 Gofyn i'r Aelod Cabinet dros Addysg annog cyrff llywodraethol ysgolion unigol i ystyried sut y gallant ddefnyddio balansau eu hysgolion fel rhan o becyn i gyfarch eu bwlch ariannol mewn ffordd gynlluniedig.

1.2 Amgaeaf er gwybodaeth dadansoddiad o'r £4.3m (atodiad 1) sydd wedi'i baratoi ar gyfer y Gweithgor.

2. Toriadau

2.1 Bwriad gosod targed £4.3m oedd ceisio cael y Gwasanaeth Addysg i uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y byddai modd eu gwasgu allan o'r gyfundrefn addysg cyn symud ymlaen i doriadau. Mae'n rhaid derbyn fod y ffin rhwng arbedion effeithlonrwydd a thoriadau yn un anodd i'w diffinio ym maes addysg.

2.2 O fis Medi ymlaen, bydd y Cyngor yn mynd allan i ymgynghori gyda thrigolion Gwynedd ar y **toriadau** y mae'n bosibl eu gweithredu ac ar hyn o bryd, mae'r cabinet yn ystyried yr opsiynau cyfyngedig sydd yna ar gyfer toriadau ym maes Addysg. [Hynny yw gallwn wneud y gyfundrefn yn fwy effeithlon ond yn wyneb natur statudol y gwasanaeth mae'n anodd amgyffred y bydd yna gyfleoedd sylweddol ar gyfer gwneud toriadau i'w cynnig fel dewisiadau i drigolion Gwynedd].

2.3 Yng ngoleuni hynny a'r ffaith fod 38% o wariant y Cyngor ynghlwm ym maes Addysg, mae yna bosibilrwydd y bydd y Cyngor yn chwilio i'r gwasanaeth geisio adnabod mwy o arbedion effeithlonrwydd uwchben y £4.3m presennol.

3 Aelodaeth ac Amserlen Gweithredu

3.1 Gofynnir i'r Fforwm ystyried a chadarnhau aelodaeth y Gweithgor Cyllid Addysg, gan atgoffa'r Fforwm am aelodaeth o'r gweithgor blaenorol sef y Gweithgor Targed Arbedion Ysgolion

- 1 Cadeirydd y Fforwm
- 1 Aelod Cabinet dros Addysg
- 4 Pennaeth Cynradd
- 4 Pennaeth Uwchradd
- 1 Pennaeth Arbennig
- 1 Yr Esgobaeth

Ynghyd a'r sylwebyddion isod -

- 1 Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau
- 1 Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

3.2 Byddaf yn cyflwyno amserlen gweithredu ar gyfer y Gweithgor ar y diwrnod